Community Housing Cymru

# Cyfarwyddwr Materion Allanol

## Llanw dros gyfnod mamolaeth - 12 mis

**£72,100 yn codi i £75,894**

**Dyddiad Cau: canol nos, 2 Medi 2024**

# Teitl Swydd

## £72,100 yn codi i £75,894 ar ôl 6 mis o gyfnod prawf

+ buddion hael + ymagwedd hyblyg at weithle

## Amserlenni

**Dyddiad cau: 2 Medi 2024 (canol nos)**
**Llunio rhestr fer: 5 Medi 2024**
**Cyfweliad rhithiol / wyneb yn wyneb: 12/13 Medi 2024**

## Ydych chi eisiau gwneud gwahaniaeth?

Roedd "arhoswch gartref" yn ymadrodd a glywsom dro ar ôl tro yn ystod y pandemig. Ni chafodd ein cartrefi erioed gymaint o amlygrwydd; treuliodd llawer ohonom gymaint o amser ynddynt ac roedd cynifer o agweddau o'n bywydau yn troi o'u hamgylch. Nid oedd 'cartref' erioed wedi golygu mwy.

Rhywle diogel, cysurus a saff i wynebu storm y pandemig. Rhywle y gellid ei addasu i'r newid yn ein hanghenion. Rhywle cysylltiedig â'n gwaith, addysg, gwasanaethau cyhoeddus – a'n gilydd.

Rydym eisiau gweld Cymru lle mae tai da yn hawl sylfaenol i bawb ac mae cymdeithasau tai eisiau chwarae eu rhan lawn mewn gwireddu hyn. Mae cymdeithasau tai yn adeiladu miloedd o gartrefi fforddiadwy i'w rhentu bob blwyddyn, maent yn helpu pobl i brynu eu cartref cyntaf a chael mynediad i swyddi a hyfforddiant. Maent hefyd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth iechyd i ddarparu gofal a chymorth mewn cymunedau. Ond mae ganddynt uchelgais fawr i wneud llawer mwy i ddod â'r argyfwng tai yng Nghymru i ben.

Rydym yn edrych am rywun sy'n frwdfrydig am chwarae eu rhan mewn dod â'r argyfwng tai i ben. Daliwch i ddarllen os yw hyn yn swnio fel chi.

Mae CHC wedi llofnodi Addewid Gweithredoedd Nid Geiriau Tai Pawb ac mae'n cyflawni ein strategaeth cydraddoldeb a chynhwysiant i hyrwyddo amgylchedd mwy cynhwysol, sy'n denu pob ymgeisydd ac sy'n dangos ein hymroddiad i ddathlu a hyrwyddo amrywiaeth. Croesawn geisiadau gan bobl o bob cefndir.

# Am Cartrefi Cymunedol Cymru

Fel y corff ymbarél ar gyfer cymdeithasau tai yng Nghymru, rydym yn falch i gynrychioli ein haelodau sy'n darparu cartrefi a gwasanaethau i 10% o boblogaeth Cymru. Ein gwaith yw sicrhau fod y sector yn parhau i ffynnu yng Nghymru ac yn barod ar gyfer y dyfodol.

## Ein tîm staff



Rydym yn dîm staff ymroddedig sy'n cydweithio i alluogi ein haelodau i fod yn wych. Mae gennym ddiwylliant agored, ymddiriedgar a gofalgar gyda gwerthoedd yn adlewyrchu sut y gweithiwn gyda'n gilydd a hefyd sut y gweithiwn gyda'n haelodau a rhanddeiliaid.  Mae staff yn cael y rhyddid i gyflawni eu swydd pryd a lle y gweithiant orau.

Rydym yn annog arloesi a bob amser yn ymchwilio ffyrdd newydd i wneud pethau'n well. Byddwn yn parhau i gefnogi staff i weithio'n hyblyg gyda ffocws ar ddeilliannau.

## Mae gennym 22 aelod o staff sy'n gweithio ar draws dau dîm: -

**Gwasanaethau Busnes – Adnoddau Dynol, Technoleg Gwybodaeth, Gweinyddiaeth, Cyllid, Ymgysylltu ag Aelodau a Digwyddiadau**

**Materion Allanol – Polisi a Materion Allanol a Chyfathrebu**

Ers y pandemig, rydym wedi gweithio o bell.

Serch hynny, nid yw hynny'n golygu nad ydym yn gweld ein gilydd! Mae gennym ofod gweithio bach yng Nghaerdydd sydd ar gael i staff i gyd-leoli a chynnal cyfarfodydd ac mae ein tîm llawn o staff yn dod ynghyd bob chwe wythnos i gydweithio, arloesi a chymdeithasu. Rydym hefyd yn annog ein haelodau staff i gwrdd mewn timau gyda chydweithwyr ehangach i ddiwallu anghenion y busnes a chynnal rhaglen lawn o ddigwyddiadau a sesiynau wyneb yn wyneb gyda'r cymdeithasau tai sy'n aelodau i ni ledled Cymru ac a gaiff eu mynychu gan lawer o aelodau ein staff.

# Ein Nod

Mae ein cynllun corfforaethol hyd at 2026-27 yn nodi'r camau gweithredu y byddwn yn canolbwyntio arnynt i gefnogi ein haelodau i wneud y gwahaniaeth mwyaf yn eu cymunedau.

Ein nodau yw:

1. Sicrhau'r dulliau, cyllid a pholisi sy'n cefnogi cartrefi cymdeithasau tai ansawdd da.
2. Dylanwadu ar yr amgylchedd polisi fel y gall cymdeithasau tai barhau i ddarparu cartrefi fforddiadwy a rhoi cymorth effeithlon i denantiaid sy'n wynebu caledi ariannol.
3. Hyrwyddo ymddiriedaeth mewn cymdeithasau tai a'u cefnogi i adeiladu partneriaethau cryf yn lleol.
4. Sicrhau fod CHC yn gorff aelodaeth ystwyth a chynhwysol ac yn gyflogwr rhagorol.

## Ein Gwerthoedd



# Am y swydd

## Amcanion allweddol

- Darparu arweinyddiaeth effeithlon yn fewnol a hefyd yn allanol mewn meysydd polisi, lobio, materion cyhoeddus, cynrychiolaeth a chyfathrebu.
- Arwain a goruchwylio gwaith CHC i sicrhau newid ar ran ein haelodau.
- Sicrhau fod ein gwaith eiriolaeth wedi ei seilio ym marn a phrofiad ein haelodau.
- Darparu cyfeiriad strategol, datblygu, rheoli a chefnogi'r Penaethiaid Polisi a Materion Allanol a'r Pennaeth Cyfathrebu yn unol â pholisïau a gweithdrefnau.
- Bod yn aelod o'r Tîm Uwch Reolwyr a chymryd cyfrifoldeb gyda'r tîm am gyflawni prosiectau a materion corfforaethol.
- Sefydlu a chynnal cydberthynas allweddol gydag aelodau a rhanddeiliaid.
- Goruchwylio ymatebion effeithiol i ddigwyddiadau polisi, cyfryngau a gwleidyddol arwyddocaol.
- Arwain ar ystod o gynlluniau proffil uchel ar draws meysydd polisi yn seiliedig ar anghenion y busnes.
- Paratoi adroddiadau ysgrifenedig a chyflwyniadau i Fwrdd CHC gyda ffocws neilltuol ar sut mae ein gwaith materion allanol wedi ei seilio ar gynrychiolaeth effeithiol.
- Fel aelod o'r Tîm Uwch Reolwyr, cyfrannu at ddatblygu cyfeiriad strategol CHC.
- Ymgymryd ag unrhyw weithgareddau rhesymol eraill, yn ôl cyfarwyddyd y Prif Weithredwr.

## Cyfrifoldebau allweddol

- Darparu arweinyddiaeth strategol a rheoli tîm i sicrhau cyflawni ein Cynllun Corfforaethol ar draws polisi a materion allanol a chyfathrebu.
- Cefnogi a chyfarwyddo'r Penaethiaid gwasanaeth i oruchwylio cyflwyno ein cynllun gwaith gweithredol yn llwyddiannus ar draws polisi a materion cyhoeddus.
- Arwain ar ddatblygu polisi yn fewnol a hefyd yn allanol.
- Chwarae rôl allweddol fel aelod o'r Tîm Uwch Reolwyr, yn cynnwys arwain ystod o brosiectau corfforaethol.
- Arwain ein gwaith eiriolaeth i sicrhau newid ar ran y sector drwy ddatblygu polisi effeithiol, gweithgaredd materion cyhoeddus a phresenoldeb dylanwadol yn y cyfryngau.

## Arall

- Gweithio'n agos gydag aelodau eraill o CHC i sicrhau cyflenwi gwasanaeth effeithlon ar gyfer aelodau
- Cynnal cydberthynas effeithlon gyda chydweithwyr a gweithio ar y cyd
- Ymgymryd â dyletswyddau eraill yn gymesur gyda'r swydd fel y gwneir cais.

## Am y tîm

Byddwch yn adrodd i'r Prif Weithredwr ac yn gweithio wrth ochr aelodau eraill o'r Tîm Uwch Reolwyr a'r tîm Polisi a Materion Allanol.

## Cysylltiadau allweddol

Cadeiryddion, Prif Weithredwyr a Chyfarwyddwyr Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig, Uwch Weision Sifil a rhanddeiliaid allweddol eraill, Aelodau o Senedd Cymru, Aelodau Seneddol San Steffan, cysylltiadau yn y cyfryngau, aelodau Bwrdd, aelodau masnachol.

## Cwrdd â'r tîm!

Mae aelodau cyfredol y tîm Polisi a Materion Allanol a'r tîm Cyfathrebu i'w gweld yma.

# Am beth ydyn ni'n edrych?

Isod rhestrir y gofynion sydd eu hangen i ymgymryd â'r swydd hon. Bydd hyn yn ffurfio rhan allweddol o'r broses ddethol a dylai eich cais ddangos eich gallu i ateb y meini prawf hyn.

H - Hanfodol D - Dymunol

| **Gwybodaeth, Sgiliau a Phrofiad** | |
|---|---|
| Addysg i lefel gradd neu gymhwyster rheoli proffesiynol cyfwerth. | **D** |
| Dwy flynedd o brofiad ar lefel uwch mewn polisi neu swydd arweinyddiaeth debyg. | **H** |
| Dealltwriaeth ac ymwybyddiaeth o faterion diwylliannol a materion sensitif yn gweithio ar draws Cymru. | **H** |
| Profiad o weithio mewn amgylchedd gwleidyddol iawn, aml-swyddogaeth a gyda rhanddeiliaid lluosog | **H** |
| Profiad a hanes o lwyddiant mewn cyswllt gyda Gweinidogion, uwch weision sifil a rhai gyda dylanwad sylweddol ar lefel genedlaethol. | **D** |
| Profiad helaeth o weithio gyda'r cyfryngau a siarad cyhoeddus. | **H** |

| | |
|---|---|
| Profiad a dealltwriaeth o dai a/neu adfywio ar lefel uwch. | **D** |
| Gwybodaeth amlwg o bolisi a materion cyhoeddus Cymru neu'r gallu i ddysgu. | **H** |
| Profiad o weithio gyda Bwrdd. | **D** |
| Siarad Cymraeg | **D** |
| **Ffocws Busnes** | |
| Gwybodaeth a phrofiad mewn rheoli, cyfathrebu, rheoli prosiect, cynllunio a gwerthuso ar lefel uwch. | **H** |
| Dangos profiad o gynllunio ariannol a rheoli cyllideb. | **H** |
| Lefel uchel o sgiliau rhyngbersonol i roi cyflwyniadau ffurfiol a llawn argyhoeddiad. | **H** |
| Dangos gallu i feddwl a gweithredu'n fasnachol a chymryd penderfyniadau busnes cadarn. | **H** |
| Profiad o arwain ar ffurfio a gweithredu strategaeth. | **H** |
| **Arwain Newid** | |
| Gallu i feddwl a gweithredu'n greadigol i sicrhau newid cadarnhaol ac arloesol ar lefel sefydliad neu dîm. | **H** |
| **Cymell** | |
| Tystiolaeth o'r gallu i reoli parhad, newid a phontio yn effeithlon. | **H** |
| Tystiolaeth o'r gallu i ddylanwadu a galluogi eraill. | **H** |
| **Ymroddiad i Ganlyniadau** | |
| Hanes llwyddiannus o reoli prosiectau a chynlluniau. | **H** |

| | |
|---|---|
| Hunan-daniwr a chwaraewr tîm. | **H** |
| **Gweithio Partneriaeth** | |
| Hanes o lwyddiant mewn rhwydweithio effeithlon a gallu i ddylanwadu, meithrin cydberthynas gyda, a darbwyllo, ystod o bartneriaid. | **H** |
| **Nodweddion Personol** | |
| Trefnus iawn | **H** |
| Gallu tynnu themâu a llinynnau i egluro safbwyntiau a dod â phobl ynghyd. | **H** |
| Sylw rhagorol i fanylion. | **H** |
| Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gyda phrofiad mewn rhoi cyflwyniadau a chynnal cyfweliadau gyda'r cyfryngau. | **H** |

# Buddion

## Tâl

£72,100 yn codi i £75,894 ar ôl 6 mis o gyfnod prawf llwyddiannus.

## Oriau

Mae'r swydd yn seiliedig ar 35 awr yr wythnos – gweithio hyblyg.

## Gwyliau

25 diwrnod yn cynyddu gan un diwrnod ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth a gwblheir, hyd at uchafswm o 30 diwrnod a phob gwyliau cyhoeddus (pro rata ar gyfer staff rhan-amser). Pedwar diwrnod ychwanegol i ffwrdd yn ystod y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd.

## Prawf a goruchwyliaeth

Chwe mis o gyfnod prawf.

## Campfa

£25 o gymhorthdal bob mis.

## Cynllun iechyd arian

Cynllun iechyd arian y telir amdano (Simply Health).

## Cyfnod rhybudd

Ar ôl cyfnod prawf o 6 mis, 3 mis.

## Buddion

Darpariaethau estynedig ar gyfer salwch, mamolaeth/mabwysiadu.

## Pensiwn

Cynllun cyfraniadau Diffiniedig Cynllun Pensiwn Tai Cymdeithasol. Cyfraniadau cyflogwr yn uchafswm o 5%.

## Dysgu a datblygu

Cyllideb unigol o £550 y person, y flwyddyn.

## Gweithio o unrhyw le

Gweithredir egwyddor lleoli am y dydd (gan alluogi staff i ddewis lle byddent yn gweithio orau (gallai fod adre, siop goffi neu hyb lleol). Fodd bynnag, bydd achlysuron bob chwech wythnos lle bydd yr holl staff yn dod ynghyd i gydweithio, arloesi a chymdeithasu. Rydym hefyd yn annog staff i gwrdd wyneb yn wyneb i gefnogi cyflenwi eu gwaith a mynychu cyfarfodydd wyneb yn wyneb perthnasol ac angenrheidiol a digwyddiadau ar gyfer aelodau cymdeithasau tai.

**Mae angen i'r holl staff fod yn seiliedig yn y Deyrnas Unedig.**

# Sut i wneud cais

## Mae’r pecyn hwn yn cynnwys y manylion canlynol:

- **Disgrifiad swydd, manyleb person a gwybodaeth ar delerau ac amodau.**
- **Ffurflen gais** y bydd angen i chi ei llenwi yn amlinellu mewn dim mwy na 800 gair sut ydych yn ateb y meini prawf profiad a nodir yn y rhan ‘yr hyn rydym yn edrych amdano’ o’r fanyleb swydd a pham eich bod eisiau’r swydd yma.
- **Mae’n RHAID i chi hefyd gynnwys CV wedi ei deilwra** yng nghyswllt eich cais ar gyfer y swydd hon (dim mwy na 3 tudalen).
- **Ffurflen cyfle cyfartal.** Ni chaiff y ffurflen hon ei defnyddio ar unrhyw gam o’r broses recriwtio a chaiff ei gwahanu oddi wrth eich ffurflen gais yn syth ar ôl ei derbyn. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ar y ffurflen hon yn aros yn gyfrinachol a dim ond ar gyfer dibenion monitro i asesu effeithlonrwydd ein polisi cyfle cyfartal y caiff ei defnyddio.

Os hoffech gael sgwrs anffurfiol am y swydd, cysylltwch os gwelwch yn dda â **Stuart Ropke, Prif Weithredwr** e-bost **stuart-ropke@chcymru.org.uk**.

Rhaid e-bostio’r ffurflen wedi ei chwblhau, CV a ffurflen cyfle cyfartal wedi’u nodi yn **Preifat a Chyfrinachol Cyfarwyddwr Materion Allanol** at **Gemma-Beck@chcymru.org.uk** erbyn **canol nos 2 Medi 2024.**

Caiff pob ffurflen eu cadw am 6 mis yn unol ag arfer gorau i sicrhau y gallwn roi adborth i ymgeiswyr aflwyddiannus ac i gefnogi’r sefydliad pe byddid yn dod â hawliad yn ei erbyn.

**Mae cyfweliadau rhithiol ac wyneb yn wyneb ar gael ac fe’u cynhelir ar 12 a 13 Medi.**

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais wedi ei gwblhau maes o law.